Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales




Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

# Canllawiau ar Ddiffiniadau Dangosyddion, a Gofynion Data a Thystiolaeth

## Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF):

## Echel Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

Fersiwn: 3.0 Medi 2023

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys

Cynnwys 3

Rhestr Termau 4

Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi 6

Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol 7

Amcan Penodol 4.1 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 9

Amcan Penodol 4.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 4.1 (Dwyrain Cymru) 10

Amcan Penodol 4.3 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 4.2 (Dwyrain Cymru) 11

Amcan Penodol 4.4 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 12

Diffiniadau o Ddangosyddion 13

Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) 14

Llwybr troed neu lwybr beiciau a grëwyd neu a ailadeiladwyd 15

Cyfleusterau rhyngfoddol a grëwyd neu a wellwyd 17

Cyfanswm hyd llinell reilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) 18

Eiddo ychwanegol sydd â mynediad band eang o 30 Mbps o leiaf* – Cartrefi 19

Nifer y Busnesau sy'n cael cymorth i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch 20

Poblogaeth ychwanegol a gwmpesir gan fand eang gwibgyswllt (>100Mbps) 21

Tir a ddatblygwyd 22

Eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd 23

BBaChau y darparwyd lle ar eu cyfer 24

Swyddi y darparwyd lle ar eu cyfer 25

Lleihau allyriadau sy'n cyfateb i $CO^2$ 26

ATODIAD A: Gofynion Data i Fusnesau 27

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Tir llwyd | Yn cynnwys tir halogedig, diffaith neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol, sy'n cynnwys neu a oedd yn cynnwys strwythur parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth), a seilwaith arwyneb sefydlog cysylltiedig o fewn cwrtil y datblygiad. |
| Tir a ddatblygwyd | Gwneud tir yn addas i'w ddefnyddio drwy waredu cyfyngiadau ffisegol er mwyn ei agor ar gyfer datblygu, neu gynnwys darparu gwasanaethau i'w agor ar gyfer datblygu. |
| Cyfwerth ag Amser Llawn | Dylai swyddi gael eu nodi'n rhai sy'n gyfwerth ag amser llawn (FTE), yn seiliedig ar wythnos o 30 awr.<br><br>Er enghraifft, os yw swydd yn golygu gweithio 30 awr neu fwy bob wythnos, yna mae'n 1 FTE. Os nad yw swydd yn llawn amser, yna bydd angen rhannu'r oriau a weithiwyd bob wythnos â 30 i ganfod y gyfran o FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, byddai 18 awr yr wythnos yn 0.6 FTE. |
| Tir glas | Tir lle na fu unrhyw ddatblygu trefol yn flaenorol; deellir fel arfer ei fod ar gyrion ardal adeiledig sy'n bodoli eisoes (Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd, 2007). |
| Gros | Cyfanswm y nifer a gyflawnwyd ar gyfer dangosydd drwy weithgarwch y Gronfa Strwythurol (ni waeth beth fo cyfran y prosiect a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol) heb ei addasu ar gyfer diffrwythedd, disodli, gollwng ac effeithiau lluosydd. |
| BBaCh | Categori o ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn ewro, a/neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn ewro.<br><br>Rydych yn ymreolaethus:<br><br>– os ydych yn gwbl annibynnol, h.y. nid ydych yn cyfranogi mewn unrhyw fusnesau eraill ac nid oes unrhyw fusnes yn cyfranogi yn eich busnes chi.<br><br>– os ydych yn dal llai na 25% o'r hawliau cyfalaf neu bleidleisio (pa un bynnag sydd uchaf) yn un neu ragor o fusnesau a/neu nid |

| | |
|---|---|
| | oes gan bobl allanol fuddran o 25% neu fwy o'r hawliau cyfalaf neu bleidleisio (pa un bynnag sydd uchaf) yn eich busnes.<br><br>Os ydych yn ymreolaethus, mae'n golygu nad ydych<br><br>yn bartner nac yn gysylltiedig â busnes arall (Gweler Erthygl 3.1, t.35). |

## Amcanion Thematig a Blaenoriaethau Buddsoddi

| | | |
|---|---|---|
| Amcanion Thematig | 7 Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a dileu rhwystrau mewn seilweithiau rhwydwaith allweddol | |
| | 4. Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector | |
| | 2. Gwella mynediad at TGCh a'r defnydd a wneir ohoni | |
| | 8 Hyrwyddo cyflogaeth a chefnogi symudedd llafur | |
| Blaenoriaeth Fuddsoddi 7a) | Cefnogi Ardal Drafnidiaeth Ewropeaidd Sengl amlfoddol drwy fuddsoddi yn y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) | AP 4.1 |
| Blaenoriaeth Fuddsoddi 4e) | Gwella symudedd rhanbarthol drwy gysylltu nodau eilaidd a thrydyddol â seilwaith TEN-T, gan gynnwys nodau amlfoddol sy'n hyrwyddo strategaethau carbon isel ar gyfer pob math o diriogaethau, yn enwedig ar gyfer ardaloedd trefol, gan gynnwys hyrwyddo symudedd trefol amlfoddol cynaliadwy a mesurau addasu sy'n berthnasol i brosesau llinaru. | AP 4.2 |
| Blaenoriaeth Fuddsoddi 2a) | Ehangu'r defnydd o fand eang a chyflwyno rhwydweithiau cyflym a chefnogi'r gwaith o fabwysiadu technolegau a rhwydweithiau sy'n datblygu ar gyfer yr economi ddigidol | AP 4.3 |
| Blaenoriaeth Fuddsoddi 8b) | Cefnogi twf sy'n ystyriol o gyflogaeth drwy ddatblygu potensial mewndarddol fel rhan o strategaeth diriogaethol ar gyfer ardaloedd penodol, gan gynnwys trosi rhanbarthau diwydiannol sy'n dirywio a gwella hygyrchedd adnoddau naturiol a diwylliannol penodol a'u datblygu. | AP 4.4 |

## Dangosyddion Canlyniadau ac Amcanion Penodol

Bwriedir i'r dangosydd canlyniadau gyfleu'r newid a ragwelir o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad(au) sy'n gysylltiedig â phob amcan penodol. Nodir y rhesymeg dros ddewis y dangosyddion canlyniadau a thargedau rhaglenni yn y priod Raglenni Gweithredol.

Dylai gweithrediadau, yn unol â thablau rhesymeg eu gweithrediad, ganolbwyntio ar eu cyfraniad at y dangosydd canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol.

Dylai'r dewis o ddangosyddion allbwn fel y'u diffiniwyd yn y canllawiau hyn, ddeillio o'r rhesymeg ymyrryd ar gyfer pob gweithrediad a bod yn gyson â'r priod ddangosyddion canlyniadau, amcanion penodol a blaenoriaethau buddsoddi.

Bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos y cysylltiadau rhwng nodau ac amcanion, gweithgareddau a dangosyddion. Caiff y dystiolaeth a ddarperir ei nodi yn y Cynllun Busnes, y cytunwyd arni ar y cyd â WEFO.

**Data Monitro:**

Bydd angen darparu data i ategu hawliadau. Mae Atodiad A yn nodi'r gofynion data ***gofynnol*** ar gyfer gweithrediadau a ariennir gan WEFO.

Dylai buddiolwyr gasglu data monitro ***ychwanegol*** er mwyn ei gwneud yn bosibl i effeithiolrwydd ac effaith y gweithrediad gael ei werthuso.

Dylid lanlwytho'r data drwy WEFO ar-lein fel rhan o'r broses hawlio. Mae templed ar gyfer darparu data ar gael ar wefan WEFO.

Mae'r Rhaglenni Gweithredol ar gael yn: https://llyw.cymru/rhyngwladol-ue

Mae'r rhain yn nodi nodau cyffredinol y rhaglenni y bydd y gweithrediadau yn cael eu cynnal oddi mewn iddynt ac mewn llawer o achosion byddant yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau a ragwelir o dan bob AP.

Cysylltiadau Defnyddiol ar gyfer ymholiadau a chyngor:

RME.MAILBOX@gov.wales Ymholiadau ynglŷn ag Ymchwil, Monitro a Gwerthuso

WEFOCrossCuttingThemes@gov.wales Ymholiadau ynglŷn â Themâu Trawsbynciol

WEFOverifications@gov.wales Ymholiadau ynglŷn ag archwilio a thystiolaeth

Os bydd ymholiad yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithrediad cymeradwy, yna dylid cysylltu â'r swyddog datblygu prosiect fel y pwynt cyswllt cyntaf.

## Amcan Penodol 4.1 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

| | | |
|---|---|---|
| Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu | | |
| | | Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023) |
| Dangosydd Canlyniadau | Cyflymder cyfartalog ar ffordd TEN-T (Cilomedr yr awr) | - 5%-10%[1] |
| Dangosyddion Allbwn | Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 15 km |
| | Llwybr troed neu lwybr beiciau a grëwyd neu a ailadeiladwyd | 5 km |

1 A40 58 Cilomedr yr awr; A55, 86 Cilomedr yr awr (2013) (Data Trafficmaster)

## Amcan Penodol 4.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 4.1 (Dwyrain Cymru)

| Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol | | | |
|---|---|---|---|
| | | Targed<br>Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>(2023) | Targed<br>Dwyrain Cymru<br>(2023) |
| Dangosydd Canlyniadau | Cyfran y bobl 16 oed a throsodd o fewn trothwy amser teithio 15, 30 a 45 munud i 'Ganolfan Allweddol' rhwng 7am a 9am ar ddydd Mawrth ar drafnidiaeth gyhoeddus | + 5-10% ym mhob band amser[2] | +10%[3] |
| Dangosyddion Allbwn | Cyfleusterau rhyngfoddol a grëwyd neu a wellwyd | 25 | 5 |
| | Cyfanswm hyd llinell reilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T) | 24 km | 5 km |
| | Lleihau allyriadau sy'n cyfateb i $CO_2$[4] | 10,700 | 1,800 |
| | Tir a ddatblygwyd | 3 | |

2 Llinell sylfaen 0-15 munud 636,562; 0-30 munud 1.664,666 (adroddiadau data GIS y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol)

3 Llinell sylfaen 869,000 (Dwyrain Cymru)

4 Mae'r dangosydd hwn yn orfodol i bob gweithrediad yn yr AP hwn (Blaenoriaeth Amcan para 36)

## Amcan Penodol 4.3 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) 4.2 (Dwyrain Cymru)

| Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 100% i fand eang y genhedlaeth nesaf (30Mbps ac uwch) a mynediad o 50% i 100Mbps. | | | |
|---|---|---|---|
| | | Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023) | Targed Dwyrain Cymru (2023) |
| Dangosydd canlyniadau | Cyfran yr eiddo sydd mewn codau post a wasanaethir gan rwydweithiau NGA | 65%[5] | 65%[5] |
| Dangosyddion Allbwn | Eiddo ychwanegol sydd â mynediad band eang o 30 Mbps o leiaf – cartrefi | 60,000 | 35,000 |
| | Nifer y busnesau sy'n cael cymorth i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch | 250 | 25 |
| | Poblogaeth ychwanegol a gwmpesir gan fand eang gwibgyswllt (>100Mbps) | DD/G | DD/G |

5 Llinell sylfaen 58% (Cymru gyfan)

## Amcan Penodol 4.4 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

| Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol | | |
|---|---|---|
| | | Targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (2023) |
| Dangosydd Canlyniadau | Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau mewn Ardaloedd Teithio i'r Gwaith | -8%[6] |
| Dangosyddion Allbwn | Tir a ddatblygwyd | 100 hectar |
| | Eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd | 120,232 $m^2$ |
| | Swyddi y darparwyd lle ar eu cyfer | 2,405 |
| | BBaChau y darparwyd lle ar eu cyfer | 235 |

6 Llinell sylfaen 11,442 (Stats Cymru; cyfradd cyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn)

## Diffiniadau o Ddangosyddion

**Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)**

Hyd ffyrdd lle y gwellwyd capasiti neu ansawdd y ffordd (gan gynnwys safonau diogelwch).

(Ar gyfer TEN-T: Cyfanswm hyd ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd yn TEN-T)

Ailadeiladwyd: gwelliant ffisegol ffyrdd sy'n bodoli eisoes. Gall gwelliannau olygu unrhyw waith a wnaed gyda'r nod o wella amser teithio ar ffordd, neu sicrhau y gellir defnyddio ffordd unwaith eto.

**Uned:**

KM

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Caniatâd cynllunio; astudiaeth o'r effaith amgylcheddol; dogfennau sy'n dangos tystiolaeth o'r broses gaffael, contractau gwaith wedi'u llofnodi, a thaliadau a awdurdodwyd oddi wrth Dirfesurwyr/Asiantau, tystiolaeth ffotograffig, tystiolaeth ffisegol, tystysgrifau cwblhau ac ati.

**Llwybr troed neu lwybr beiciau a grëwyd neu a ailadeiladwyd**

Nifer y cilometrau o lwybr troed neu lwybr beiciau a grëwyd neu lwybr troed neu lwybr beiciau sy'n bodoli eisoes a ailadeiladwyd. Dylai'r llwybrau troed a'r llwybrau beiciau fodoli'n bennaf at ddiben mynediad i gyfleusterau addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes neu i ardaloedd cyflogaeth, megis safleoedd ac eiddo busnes neu ganol trefi/dinasoedd yn bennaf, yn hytrach nag at ddefnydd hamdden.

Crëwyd: Cyflawnwyd drwy gymorth neu gymorth ariannol y Gronfa Strwythurol ac nid oedd yn bodoli cyn gweithgaredd y Gronfa Strwythurol.

Ailadeiladwyd: gwella llwybrau troed neu lwybrau beiciau sy'n bodoli eisoes..

**Uned:**

KM

**Gofynion Data:**

Crëwyd

Ailadeiladwyd

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Caniatâd cynllunio; astudiaeth o'r effaith amgylcheddol; dogfennau sy'n dangos tystiolaeth o'r broses gaffael, contractau gwaith wedi'u llofnodi, a thaliadau a awdurdodwyd oddi wrth Dirfesurwyr/Asiantau, tystiolaeth ffotograffig, tystiolaeth ffisegol, tystysgrifau cwblhau ac ati.

Gall gwelliannau gynnwys unrhyw waith a wnaed gyda'r nod o wella diogelwch neu gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded/beicio ar y llwybr troed neu'r llwybr beiciau

**Cyfleusterau rhyngfoddol a grëwyd neu a wellwyd**

Nifer y cyfleusterau rhyngfoddol a grëwyd neu a gafodd eu gwella.

Cyfleuster rhyngfoddol: cyfleuster sy'n ei gwneud yn bosibl i symud nwyddau neu deithwyr o un math o drafnidiaeth i o leiaf un arall.

Crëwyd: Cyflawnwyd drwy gymorth neu gymorth ariannol y Gronfa Strwythurol ac nid oedd yn bodoli cyn gweithgaredd y Gronfa Strwythurol.

Gwellwyd: gwelliant ffisegol fel y gellir trosglwyddo nwyddau neu deithwyr yn fwy effeithlon rhwng mathau o drafnidiaeth, neu hefyd yn achos teithwyr i alluogi mynediad i gyfleusterau addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes neu i ardaloedd cyflogaeth, megis safleoedd ac eiddo busnes neu ganol trefi/dinasoedd.

Mae mathau o gyfleusterau yn cynnwys cyfleusterau parcio a theithio, hybiau trafnidiaeth sy'n cysylltu bysiau a rheilffyrdd, cysylltiadau beicio.

**Uned:**

Nifer.

**Gofynion Data:**

Crëwyd.

Gwellwyd.

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Dylid cofnodi'r allbwn hwn ar ôl cwblhau'r gwaith.

Tystiolaeth ddogfennol o gyfleusterau sy'n bodoli eisoes.

Tystiolaeth o'r angen i ymyrryd, e.e. cynllun busnes.

Tystiolaeth o gontract ar gyfer gwaith a thaliadau ardystiedig a awdurdodwyd.

Tystiolaeth ddogfennol o gyfleusterau newydd neu well, e.e ffotograffau, amserlenni.

## Cyfanswm hyd llinell reilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)

Hyd rheilffyrdd y mae eu hansawdd neu eu capasiti wedi cael ei wella. Gall hyn gynnwys trydaneiddio, datblygu rheilffordd un llinell yn un ddeuol, cynyddu cyflymder posibl ar y llinell, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, ond nid yw'n cynnwys gosod systemau signalau (gan gynnwys sicrhau cydweddoldeb â'r System Rheoli Traffig Rheilffyrdd Ewropeaidd).

Dewisir peidio â chynnwys systemau signalau yma am eu bod yn ystumio'r gwerthoedd.

**Uned:**

KM

**Gofynion Data:**

TEN-T

Nid TEN-T

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Dylid cofnodi'r allbwn hwn ar ôl cwblhau'r gwaith.

Tystiolaeth ddogfennol o gyfleusterau sy'n bodoli eisoes.

Tystiolaeth o'r angen i ymyrryd, e.e. cynllun busnes.

Tystiolaeth o gontract ar gyfer gwaith a thaliadau ardystiedig a awdurdodwyd.

Tystiolaeth ddogfennol o gyfleusterau newydd neu well, e.e ffotograffau cyn ac ar ôl, amserlenni.

## Eiddo ychwanegol sydd â mynediad band eang o 30 Mbps o leiaf* – Cartrefi

Nifer y cartrefi â mynediad i'r rhyngrwyd â chyflymder lawrlwytho o 30 Mb yr eiliad o leiaf a oedd â mynediad mwy cyfyngedig neu dim mynediad o gwbl cyn hynny. Mae'r rhaid i'r gallu i gysylltu â'r rhyngrwyd fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth. Mae'r dangosydd yn mesur cartrefi sydd â'r posibilrwydd o gael mynediad yn hytrach na mesur a yw'r bobl sy'n byw yn y cartrefi yn dewis cysylltu â'r rhyngrwyd mewn gwirionedd ai peidio.

30 Mbps yn unol ag EU2020[7]

### Uned:

Nifer.

### Tystiolaeth Awgrymedig:

Data wedi'u mapio 'Cyn ac Ar ôl' o gysylltiadau 30 Mbps yn ôl Awdurdod Unedol.

Dylai llinell sylfaen y ddarpariaeth cyn ymyriad a'r ffordd y caiff ei modelu ar ôl ymyriad gael ei chynnwys yn y cynllun busnes.

Dylai'r gwerthusiad terfynol o'r prosiect ddangos nifer y defnyddwyr.

7 gweler COM(2010)245 "A digital agenda for Europe" (EC, 2014)

**Nifer y Busnesau sy'n cael cymorth i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch**

Nifer y busnesau sydd â mynediad i'r rhyngrwyd â chyflymder lawrlwytho o 100 Mb yr eiliad o leiaf a oedd â mynediad mwy cyfyngedig neu dim mynediad o gwbl cyn hynny.

Mae'r dangosydd hwn yn gofyn am gysylltiad wedi'i gwblhau.

**Uned:**

Busnesau

**Gofynion Data:**

Dylid cyflwyno data ar bob busnes sy'n cael cymorth pan fydd wedi'i gynnwys mewn hawliad. Dylai tystiolaeth fod ar gael pan fydd yr hawliad yn cael ei wneud.  Ceir rhestr gyflawn o feysydd yn yr Atodiad.

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Data wedi'u mapio 'Cyn ac Ar ôl' o gysylltiadau 100 Mb yr eiliad yn ôl Awdurdod Unedol.

**Poblogaeth ychwanegol a gwmpesir gan fand eang gwibgyswllt (>100Mbps)**

Poblogaeth ychwanegol sydd â mynediad i'r rhyngrwyd â chyflymder rhagweledig o dros 100Mbps ar gyfartaledd ac a oedd â mynediad cyfyngedig neu dim mynediad o gwbl cyn hynny.

Mae'n rhaid i'r gallu i gysylltu fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth.

**Uned:**

Nifer.

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Data wedi'u mapio 'Cyn ac Ar ôl' o gysylltiadau 100Mbps yn ôl Awdurdod Unedol.

Dylai llinell sylfaen y ddarpariaeth cyn ymyriad a'r ffordd y caiff ei modelu ar ôl ymyriad gael ei chynnwys yn y cynllun busnes.

Dylai'r gwerthusiad terfynol o'r prosiect ddangos nifer y defnyddwyr.

**Tir a ddatblygwyd**

Nifer yr hectarau o dir llwyd neu dir glas a ddatblygwyd.

Os yw eiddo yn cael ei greu neu ei adnewyddu, ar gyfer gweithrediadau a gymeradwywyd o dan AP 4.4 o Raglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, dylid hawlio am hyn o dan y dangosydd 'eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd'.

Os yw safle yn cael ei glirio a bod adeilad newydd yn cael ei godi, yna gellir hawlio am y tir a ddatblygwyd a'r eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd. Dylid nodi manylion yr ardal a hawliwyd yn y cynllun busnes a chytuno arni ar y cyd â WEFO.

**Uned:**

Hectar

**Gofynion Data:**

Math o dir (Tir llwyd – diffaith, Tir llwyd – halogedig; Tir glas)

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Dylid cofnodi'r allbwn hwn ar ôl cwblhau'r gwaith.

Ardal y safle – cyfeiriad post llawn yn cynnwys y cod post, cofnod/gweithredoedd y Gofrestrfa Tir, manylion cofrestr yr Awdurdod Lleol/y Gronfa Ddata Defnydd Tir Cenedlaethol (NLUD) (ar gyfer y defnydd blaenorol i sicrhau nad yw mewn categori a eithriwyd).

Tystiolaeth o'r angen i ymyrryd,  e.e. cynllun busnes.

Tystiolaeth o gontract ar gyfer gwaith a thaliadau ardystiedig a awdurdodwyd.

Tystiolaeth ddogfennol o gyfleusterau newydd neu well, e.e. ffotograffau, amserlenni.

**Eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd**

Nifer y metrau sgwâr o ofod adeilad a grëwyd neu a adnewyddwyd ar gyfer defnydd busnes a/neu addysgol. Nid yw hyn yn cynnwys arwynebedd a ddefnyddir i barcio ceir neu waith tirlunio allanol.

Crëwyd: codi adeilad newydd.

Adnewyddu: adnewyddu adeilad sy'n bodoli eisoes.

**Uned:**

$M^2$

**Gofynion Data:**

Crëwyd

Adnewyddwyd

*Awdurdod Unedol* (Abertawe, Blaenau Gwent, Caerfyrddin, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro, Sir Ddinbych, Torfaen, Ynys Môn)

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Gwaith – tystysgrif yn nodi bod y gwaith wedi'i gwblhau'n ymarferol. Ardystiad Safon Ansawdd o'r gwaith a wnaed, e.e. gwasanaethau/cyfleustodau a seilwaith safleoedd, y seiliau wedi'u gosod, y waliau a'r to wedi'u codi.

**BBaChau y darparwyd lle ar eu cyfer**

Darparwyd lle ar eu cyfer: Y nifer uchaf o BBaChau y gellir eu lleoli ar unrhyw adeg benodol. Nid dyma'r nifer y darparwyd lle ar eu cyfer yn ystod oes yr eiddo.

Nifer y busnesau y darparwyd lle ar eu cyfer o fewn y safleoedd a'r eiddo y cyfeirir atynt yn y dangosydd “*Eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd*".

**Uned:**

Nifer.

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Cynlluniau llawr, manylebau adeiladau i gefnogi nifer y desgiau/gweithleoedd newydd a ddarparwyd. Dylai'r gwaith adeiladu fod wedi'i gwblhau cyn nodi bod lle wedi'i ddarparu ar gyfer BBaCh.

**Swyddi y darparwyd lle ar eu cyfer**

Nifer y busnesau y darparwyd lle ar eu cyfer o fewn y safleoedd a'r eiddo y cyfeirir atynt yn y dangosydd "Eiddo a grëwyd neu a adnewyddwyd".

Darparwyd lle ar eu cyfer: Y nifer uchaf o gyfranogwyr y gellir darparu lle ar eu cyfer ar unrhyw adeg benodol. Nid dyma'r nifer y darparwyd lle ar eu cyfer yn ystod oes yr eiddo.

Os yw'r prosiect yn cynnwys adnewyddu eiddo, yna dylid ei gofnodi fel nifer y swyddi ychwanegol y darparwyd lle ar eu cyfer (h.y. dylai unrhyw swyddi y darparwyd lle ar eu cyfer cyn y gwaith adnewyddu gael eu didynnu o'r nifer a nodwyd i WEFO; os yw hyn yn arwain at werth negyddol, yna dylai'r prosiect ailystyried p'un ai hwn yw'r dangosydd canlyniadau mwyaf priodol ar ei gyfer).

Gellir defnyddio 'Employment Densities Guide' English Partnerships (2il Argraffiad, 2010) wrth gyfrifo'r swyddi y darparwyd lle ar eu cyfer. Dylid nodi'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo nifer y swyddi y darparwyd lle ar eu cyfer yn y cynllun busnes.

**Uned:**

Nifer (FTE).

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Cynlluniau llawr, manylebau adeiladau i gefnogi nifer y desgiau/gweithleoedd newydd a ddarparwyd. Dylai'r gwaith adeiladu fod wedi'i gwblhau cyn cyflwyno adroddiad ar y swyddi y darparwyd lle ar eu cyfer.

**Lleihau allyriadau sy'n cyfateb i $CO^2$**

Mae hyn yn mesur y lleihad mewn nwyon tŷ gwydr ar ôl i'r gweithgarwch a ariannwyd gael ei gwblhau.

Dylid defnyddio'r dangosydd hwn ar gyfer pob gweithrediad o fewn AP 4.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a 4.1 (Dwyrain Cymru).

**Uned:**

Tunelli sy'n cyfateb i $CO^2$

**Tystiolaeth Awgrymedig:**

Dylai tunelli o garbon a arbedir gael eu mesur drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Adroddiadau Cwmnïau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC).


## ATODIAD A: Gofynion Data i Fusnesau

Ceir fersiynau cyfredol o'r gronfa ddata o Fusnesau ar lefel micro (fersiynau PDF ac Excel) drwy ddilyn y dolenni canlynol:

CYMRAEG: http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/delivering-your-project/erdf-indicators/?skip=1&lang=cy

SAESNEG: http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/delivering-your-project/erdf-indicators/?lang=en






**Mwy o wybodaeth:**

**www.gov.wales/eu-funding**

**@wefowales / @wefocymru**

**Desg Gymorth Ymholiadau 0845 010 3355**

**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds: Investing in Wales**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government